
OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2015 No. 1519

Rheoliadau Gwlad Tarddiad Cigoedd Penodol (Cymru) 2015

Cymhwyso darpariaethau'r Ddeddf

6.—(1) Mae adran 10(1) a (2) o'r Ddeddf (hysbysiadau gwella) yn gymwys gyda'r addasiad (yn achos adran 10(1)) a bennir yn Rhan 1 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn at ddibenion—

(a) galluogi i hysbysiad gwella gael ei gyflwyno i berson sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person gydymffurfio—

(i) ag unrhyw un neu ragor o Erthyglau 3 i 6 ac 8; neu

(ii) â rheoliad 5; a

(b) ei gwneud yn drosedd i fethu â chydymffurfio â hysbysiad y cyfeirir ato yn is-baragraff (a).

(2) Mae adran 32 o'r Ddeddf (pwerau mynediad)(1) yn gymwys, gyda'r addasiadau a bennir yn Rhan 2 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn, at ddibenion galluogi swyddog awdurdodedig—

(a) i arfer pŵer mynediad i ddarganfod a oes neu a oedd unrhyw un neu ragor o Erthyglau 3 i 6 ac 8 wedi eu torri;

(b) i arfer pŵer mynediad er mwyn darganfod a oes unrhyw dystiolaeth bod darpariaeth o'r fath wedi ei thorri; ac

(c) wrth arfer pŵer mynediad o dan ddarpariaethau adran 32 fel y'i cymhwysir gan y paragraff hwn, i arfer y pwerau yn is-adrannau (5) a (6) ynglŷn â chofnodion.

(3) Mae adran 37(1) a (6) o'r Ddeddf (apelau) yn gymwys, gyda'r addasiadau a bennir yn Rhan 3 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn at ddiben galluogi apel yn erbyn penderfyniad i gyflwyno hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(a).

(4) Mae adran 39 o'r Ddeddf (apelau yn erbyn hysbysiadau gwella) yn gymwys gyda'r addasiadau a bennir yn Rhan 4 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn at ddiben ymdrin ag apelau yn erbyn penderfyniad i gyflwyno hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(a).

(5) Mae darpariaethau'r Ddeddf a bennir yng ngholofn gyntaf y tabl yn Rhan 5 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn yn gymwys gyda'r addasiadau a bennir yn yr ail golofn o'r tabl hwnnw at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(1) Diwygiwyd adran 32(5) a (6) gan adran 70 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 (p. 16) a pharagraff 18 o Atodlen 2 iddi.